OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1597 (Cy.185) (C.61)

ADEILADU, CYMRU

Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011

Wedi'i wneud - - 28 Mehefin 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 149(1) o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009.

Rhychwant a chymhwyso'r darpariaethau sy'n dod i rym

2. Mae Rhan 8 o'r Ddeddf yn dod i rym i'r graddau y mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr o ran contractau adeiladu sy'n ymwneud â gwneud gwaith adeiladu yng Nghymru yn unol ag erthygl 3.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2011

3. Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar 1 Hydref 2011—

(a) adran 138 at yr holl ddibenion eraill;

(b) adrannau 139 i 145.

John Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

28 Mehefin 2011

(**1**) 2009 p.20.